# CAN NEWYDD,

YN

*RHODDI HANES DYCHRYNLLYD,*

AM

# JOHN EVANS,

A

DDIHENYDDIWYD YN ABERHONDDU,

*Awst 22, 1825,*

AM

## LOFRUDDIAETH WIRFODDOL

*MARGARET WILLIAMS.*

---

I'w chanu ar "Bryniau'r Iwerddon."

---

*A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau.* Gen. 9, 6.

---

A GYFANSODDWYD DROS D. AMOS.

---

1 Y CYMRY mwynion hawddgar yn gynnar oll i gyd,
Gwrandewch ar hyn o hanes sy'n rhybudd i'r holl fyd
I ochel rhwydau'r gelyn sy'n ceisio'n hudo'n glau,
I wneuthur drwg-weithredoedd ar gyhoedd yn ddilai.

2 Mae rhyw newyddion dyrus ac anniddanus iawn,
Yn tramwy 'rol eu gilydd o hyd er cystudd cawn,
Pan el un trallod heibio, rhyw chwerwder arall ddaw
O hyd sy'n anfon llawer i brudd-der mawr a braw.

3 O fewn i blwyf Glandulas, hyn fu'n ddiweddar iawn
Y bu llofruddiaeth enbyd mewn llid a digter llawn,
Ar gorph un MARGARET WILLIAMS, merch hawddgar oedd erioed,
Gerllaw i Aberhonddu, yn un-a-deugain oed.

4 Disymmwth ar ryw noswaith o'i gwely collwyd hi,
Heb wybod i'w rhieni a phawb oedd yn y tŷ,
Hyn barodd anesmwythdra ac anniddanwch mawr,
Heb wybod beth ddygwyddai i'r eneth lon ei gwawr

5 Y bore aent i chwilio trwy yr ardaloedd oll,
Gan geisio'i hanwyl blentyn oedd wedi myn'd ar goll
Ac mewn byr amser wedi'n fe'i cafwyd hi yn gudd,
Yn ochr glàn rhyw afon, yn gorwedd dan y pridd.

6 Drwg-dybiwyd un JOHN EVANS, oedd yn ei charu'n awr,
Yn euog o'i llofruddio, can's 'roedd yn feichiog fawr
I chwilio am yr adyn yn sydyn aethant hwy,
Fe'i gwelent ar ei geffyl yn gyrru maes o'r plwy'.

7 Pan ydoedd yr hedd-geidwaid yn ceisio dala'r gwr,
Fe redodd i ryw geunant, a'i hanner yn y dw'r,
Gan geisio dinas noddfa, ond hyn ni cha'dd yn wir,
A'i gludo wnaent yn union i garchar mawr y Sir.

8 Ac hwy a geisient ganddo gyffesu'r weithred hon,
Ond gwadu wnaeth yn haerllug, yn ysgafn iawn ei fron,
I garchar fe a'i dygwyd i Aberhonddu'n glau,
I aros hyd y Sessiwn i'w farnu yn ddilai.

9 A phan y daeth y Sessiwn i Aberhonddu fawr,
Fe'i dygwyd at y Barnwyr i gael ei brofi'n awr,
Yn galed 'roedd ei galon, ac nid oedd arno fraw,
Er fod ei oriau'n nesu wynebu'r farn a ddaw.

10 Y tystion ga'dd eu holi'n olynol bob yn un,
Naill ai i euog-farnu neu roddi'n rhydd y dyn,
Ac mewn ychydig oriau y profwyd mai efe
Gyflawnai'r weithred erchyll ar gorph y ferch heb ble.

11 Ei frawd-yn-nghyfraith hefyd oedd un o'r tystion hyn
A alwai ef o'i wely mewn dirfawr swn yn syn,
Gan geisio ganddo ddyfod i'w gynnorthwyo'n ffri,
"Can's MARGARET a gymmerodd beth na ddylysai hi."

12 Yr anhap a ddigwyddodd oedd iddo ef ei lladd,
Drwy droi ei phen i'w gwegil, mae'n ddychryn i bob
gradd,
Ac eilwaith ef a'i dodai mewn ffetan fawr yn siwr,
I'w gyrru ar gefn ceffyl, i'w chladdu a'r lan rhyw
ddwr.

13 Ac hefyd ceisiai ganddo roi menthyg caib a rhaw,
I'r filain gael ei chladdu, hyn a wna beri braw,
A'i dodi yn y ddaear, o olwg dynol-ryw,
Ond amlwg daeth y weithred trwy bêr ddoethineb
Duw.

14 Yn union fe'i condemniwyd i fyn'd o hyn o fyd,
Trwy fod i'w frawd-yn-nghyfraith gyffesu hyn i gyd,
Ac iddo ef ei chodi hi deir-gwaith yn ei gôl,
I dreio os oedd anadl, ond hynny wnaeth yn ffol.

15 Ac yn ol holi'r tystion, cyd-brofi wnaent i gyd,
Mai ef oedd y gwr ddygodd ei bywyd bach o'r byd,
A'i phlentyn yr un funud, yn ei 'mysgaroedd hi,
A laddodd gydâ hithau trwy wrando'r gelyn du.

16 A'r Barnwyr a gyhoeddai y ddedryd uwch ei ben,
Mai y dydd Llun canlynol cai ddyoddef ar y pren,
Gan ei gynghori'n astud i geisio heddwch Duw,
Sy'n maddeu aml feiau a phechod o bob rhyw.

17 Pan ydoedd yn y carchar y dywedai mewn oer lef,
Fod ei frawd-yn-nghyfraith yn cyd-weithredu ag ef,
Ond mewn ychydig amser cyn iddo fyn'd o'r byd,
Cyhoeddai mai mewn malais y d'wedodd hyn i gyd.

18 Ac hefyd fe gyffesodd mai euog oedd efe
O'r weithred oeraidd erchyll gyflawnwyd yn y lle,
Ac mai ei haeddiant ydoedd cael dyoddef ar y pren,
Am amryw ddrygau eraill fu'n euog îs y nen.

19 Yr oedd yn lled gyfoethog yn mhethau gwag y byd
Er hynny ei fywyd gollodd, a'i olud yr un pryd,
Ei oed yn ddeg-ar-hugain, pan ddygodd fywyd hon
Oedd hynod o garuaidd, a llariaidd iawn a llon.

20 Yn ngŵydd rhyw dorf aneirif ca'dd ddyoddef ar
y pren,
Y dwyfed dydd ar hugain o Awst rhwng da'r a nen,
A miloedd oedd yn ochain a llefain dwr yn lli',
Wrth wel'd y fath ddiweddiad, trwy wrando'r
gelyn du.

21 A'i gorph ef i'r doctoriaid a roddwyd yn ol hyn,
Y rhei'ny wnaent ei agor, yr oedd yn olwg syn,
A'i galon dynent allan, hon oedd yn hardd ei lliw,
Heb argoel edifeirwch un gronyn tuag at Dduw.

22 Mae hyn yn rhybudd creulon i bawb mewn tre' a
gwlad,
I beidio â godineb, a gochel tywallt gwa'd,
I beidio aros allan yn hwyr cyn myn'd i'r tai,
Can's drwg sy'n mynych ganlyn er dychryn i bob
rhai.

23 Am hynny ie'ngctyd Cymru rhai sydd yn caru'n
glos,
Gofelwch fyn'd i'ch teiau cyn byddo'n hwyr o'r nos
O herwydd y mae'r gelyn i'ch tynnu oddiwrth Dduw
Yn rhodio oddiamgylch gan geisio dynol-ryw.

24 Chwi dadau a mammau hawddgar gweddiwch dros
eich plant,
Am iddynt rodio llwybrau y nef cyn myn'd i bant,
A chadw y gorchymynion yn dirion nos a dydd,
Cyn caffont fyn'd i orwedd i'r oerllyd wely pridd.

25 O Arglwydd Dduw y lluoedd rho nerthoedd i
ni 'nawr,
I rodio'n ol y deddfau bob munud bach ac awr,
I beidio gwrando'r diafol o hyd sy'n ddiwyd am
Gael arnom wall yn rhywle a'n caffael oll ar gam.

26 Pan byddo'n traed yn oeri bydd di yn Noddfa in',
A golch ni'n ngwaed yr Iesu a lifodd ar y bryn,
Rho ni ar dy ddeheulaw, tu fewn i'r nefoedd wen,
Ni gawn dy ogoniant mewn mwyniant byth. Amen.

---

*Jonathan Harris, Argraffydd, Caerfyrddin.*